# Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

# Polisi Enwi a Rhifo Strydodd ac Eiddo

SN  a  N Policy v10 - 01/04/24

**Mynegai**


1. Cyflwyniad (Tudalen 3)

2. Ymgeisio am gyfeiriad postio newydd (Tudalen 3)

3. Gweithdrefn (Tudalen 3)

4. Confensiynau enwi cyffredinol (Tudalen 4)

5. Confensiynau enwi stryd (Tudalen 4)

6. Confensiynau enwi a rhifo adeiladau (Tudalen 5)

7. Ailenwi ac ailrifo strydoedd ac adeiladau (Tudalen 6)

8. RHESTR TIR AC EIDDO CENEDLAETHOL a'r RHESTR TIR AC EIDDO LLEOL(Tudalen 6)

9. Gwybdoaeth a Chyngor Pellach (Tudalen 6)

10. Cyngor i ddatblygwyr ynghylch gosod platiau enwau strydoedd

11. Fees

**1. Cyflwyniad**

1.1 Mae enwi a rhifo strydoedd ac adeiladau ym Merthyr Tudful yn weithred statudol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (a elwir wedi hyn yn " y Cyngor"), ac wedi ei gynnwys yn Adrannau 64 a 65 Deddf Cyfrifoldebau Gwella Trefol 1847 ac Adrannau 17-19 Deddf Iechyd y Cyhoedd 1925.

1.2 Mae cyfeiriad eiddo yn dyfod yn fater pwysig iawn. Mae angen i sefydliadau megis y Swyddfa'r post, Gwasanaethau Brys a'r cyhoedd gael modd effeithiol a chywir o leoli a chyfeirnodi eiddo.

1.3 Nod y canllawiau hyn yw rhoi cyngor i ddatblygwyr a deiliaid adeiladau am bolisi enwi a rhifo Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

1.4 Mae'r Cyngor yn hapus i ddatblygwyr neu ddeiliaid gynnig enwau i'w hystyried. Awgrymir cynnig mwy nag un enw, a bod yr enwau a gynigir yn bodloni'r meini prawf a osodir yn Adrannau 4 – 6 isod.

**2. Ymgeisio am gyfeiriad postio newydd**

2.1 Dylai ceisiadau gael eu cyflwyno gan:

unigolion neu ddatblygwyr sy'n adeiladu tai newydd, eiddo masnachol neu ddiwydiannol, neu:

unigolion neu ddatblygwyr sy'n ymgymryd ag addasu eiddo preswyl, masnachol neu ddiwydiannol a fydd yn arwain at greu eiddo neu adeiladau newydd.

2.2 Dylai ceisiadau am gyfeiriadau newydd gael eu cyflwyno cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl derbyn caniatâd. Mae hyn yn bwysig, achos mae cwmnïau gwasanaethau yn aml yn amharod i osod gwasanaethau pan nad oes cyfeiriad postio swyddogol wedi ei ddyrannu.

2.3 Gellir cyflwyno ceisiadau drwy gwblhau'r ffurflen gais berthnasol neu drwy gyflwyno cais ysgrifenedig. Dylid atodi cynllun lleoliad a safle i raddfa (gorau oll 1:1250). Dylai'r ffurflen wedi ei chwblhau neu'r llythyr a'r ffi briodol gael eu hanfon i'r Adran Priffyrdd, Cyngor Bwrdeistref Merthyr Tudful, Uned 5, Parc Busnes Triongl Merthyr Tudful CF48 4TQ.

2.4 Os caiff cais ei gyflwyno yn ystod cam diweddar o'r datblygiad, yna mae'n bosibl y byddai problemau'n codi, yn enwedig os bydd y cais yn cael ei wrthod a bod pwrcaswyr wedi prynu eiddo a gafodd ei farchnata o dan deitl marchnata answyddogol. Dylai unrhyw lenyddiaeth marchnata a ddosberthir i gwsmeriaid arfaethedig egluro fod enwau marchnata ar gyfer datblygiadau yn amodol ar gymeradwyaeth, ac felly'n atebol i gael eu newid. Mae'n bosibl y byddai rhai deiliaid yn teimlo'n dramgwyddiedig yn dilyn colli cyfeiriad honedig fawreddog a'i newid am gyfeiriad sy'n cwympo o fewn canllawiau'r Cyngor fel y'u gosodir yn y ddogfen hon.

**3. Gweithdrefn**

3.1 Pan fydd cais wedi ei dderbyn, bydd y Cyngor yn gwirio nad oes dyblygiad ohono yn bodoli o ran enwau strydoedd yn y Fwrdeistref.

3.2 Bydd y Cyngor yn gwirio bod yr enwau stryd arfaethedig yn cydsynio â Chonfensiynau enwi cyffredinol , Confensiynau enwi stryd a Chonfensiynau enwi a rhifo adeiladau fel yr amlinellwyd yn Adrannau 4 – 6 y ddogfen hon.

3.3 Bydd y Cyngor yn ymgynghori â'i Adrannau mewnol ei hun ac â'r Post Brenhinol. Anelwn at gael ateb oddi wrth y personau hyn ymhen 21 diwrnod.

**4. Confensiynau enwi cyffredinol**

4.1 Ni ellir dyblygu enwau strydoedd ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

4.2 Ni ddylai enwau strydoedd fod yn anodd eu hynganu nac yn anodd eu sillafu

4.3 Ni chaniateir enwau pobl sydd yn fyw.

4.4 Dylai enwau strydoedd, ble y bo'n bosibl, adlewyrchu hanes neu ddaearyddiaeth y safle neu'r ardal.

4.5 Ni chaniateir enwau strydoedd y gellir eu dehongli fel hysbysebu.

4.6 Ni chaniateir enwau strydoedd y gellir eu hystyried i fod yn dramgwyddus.

4.7 Nid ddylid defnyddio enwau atodol (hynny yw rhes o adeiladau mewn stryd sydd eisoes wedi ei enwi'n cael ei enwi'n Teras).

**5. Confensiynau enwi stryd**

Wrth enwi strydoedd newydd, dylai'r confensiynau canlynol gael eu hystyried:

5.1 Dylai pob enw stryd newydd ddiweddu gydag un o'r olddodiaid canlynol:

- Stryd/ Street (ar gyfer unrhyw dramwyfa)
- Ffordd/Road (ar gyfer unrhyw dramwyfa)
- Ffordd/Way (ar gyfer prif ffyrdd)
- Rhodfa/Avenue (ar gyfer ffyrdd preswyl)
- Ffordd/Drive (ar gyfer ffyrdd preswyl)
- Maes/Place (ar gyfer ffyrdd preswyl)
- Lôn/Lane (ar gyfer ffyrdd preswyl)
- Llwyn/Grove (ar gyfer ffyrdd preswyl)
- Stablau/Mews (ar gyfer ffyrdd preswyl)
- Gerddi/Gardens (ar gyfer ffyrdd preswyl – yr yr amod nad oes dryswch gyda gwagle agored lleol)
- Cilgant/Crescent (ar gyfer ffordd siâp cilgant)
- Clos/Close (ar gyfer cul-de-sac yn unig)
- Llys/Court (ar gyfer cul-de-sac yn unig)
- Sgwâr/Square (ar gyfer sgwâr yn unig)
- Bryn/Hill (ar gyfer ffordd ar allt yn unig)
- Teras/Terrace (ar gyfer teras o dai, ond nid fel enw atodol oddi fewn i ffordd arall; gweler Adran 4.7)
- Lôn/Lane
- Llwybr/Walk (ar gyfer ffyrdd preswyl)
- Rise (ar gyfer ffyrdd preswyl)
- Rhes/Row (ar gyfer ffyrdd preswyl)
- Dôl/Mead (ar gyfer ffyrdd preswyl)

Yr unig eithriad i'r uchod yw pan fo enw stryd yn dechrau â 'Yr/The' pan na fyddai olddodiad yn cael ei ddefnyddio e.e. The Hawthorns.

5.2 Nid yw'r olddodiaid canlynol yn dderbyniol:

- Diwedd/End, Croes/Cross, Ochr/Side, Dolydd/Meadow

Gall yr uchod gael eu cynnwys mewn enw stryd ar yr amod ei fod yn gorffen ag olddodiad addas (e.e. Tramroadside North, Cross Francis Street).

5.3 Dim ond mewn man priodol y dylai eithriadau neu enwau sengl neu ddeuol gael eu defnyddio (e.e.. Broadway – ar gyfer priffyrdd yn unig).

5.4 Dylai pob llwybr i gerddwyr gael yr olddodiaid canlynol:

- Llwybr/Walk
- llwybr/Path
- Heol/ Way

5.5 Nid yw'n dderbyniol i ddefnyddio Gogledd, De, Dwyrain na Gorllewin pan fo'r ffordd mewn dwy ran ar wahân, mewn achos o'r fath, dylai un hanner gael ei ailenwi'n llwyr.

5.6 Dylid osgoi enwau sy'n swnio'n debyg o fewn yr un ardal (hynny yw Penyard Road a Penyard Close, neu Church Street a Birch Street).

**6. Confensiynau enwi a rhifo adeiladau**

Wrth enwi neu rifo adeilad newydd, dylid ystyried y confensiynau canlynol:

6.1 Dylai stryd newydd gael ei rhifo gydag odrifau ar y chwith ac eilrifau ar y dde o'r fynedfa i'r stryd, ac eithrio yn achos cul-de-sac, pan ffafrir cael rhifau olynol i gyfeiriad clocweddol.

6.2 Ni ddylai garejys preifat ac adeiladau tebyg a ddefnyddir i gartrefu ceir ac yn y blaen gael eu rhifo.

6.3 Dylai pob rhif gael ei ddefnyddio yn y drefn gywir (yn cynnwys 13). Fodd bynnag, os caiff cais ei wneud gan y datblygwyr gellir caniatáu gadael allan rhif 13, ar ôl ymgynghori â'r personau perthnasol.

6.4 Pan fo stryd bresennol neu debygol i'w hestyn, byddai fel arfer yn briodol parhau i ddefnyddio'r un enw stryd. Byddai hyn yn cynnwys parhau â rhifo'r stryd.

6.5 Caiff adeiladau (yn cynnwys y rheini ar lain cornel) eu rhifo yn ôl y stryd ble y canfyddir y brif fynedfa. Ni chaiff newid rhifau er mwyn sicrhau cyfeiriad mawreddog, neu osgoi cyfeiriad ag iddo gysylltiadau annymunol, ei awdurdodi.

6.6 Os oes gan adeilad fynedfeydd ar fwy nag un stryd, neu os yw'n adeilad amlfeddiant a bod pob mynedfa yn arwain at breswyliwr gwahanol, yna dylai pob mynedfa gael ei rifo yn y ffordd briodol. Gellir gwneud eithriadau, gan ddibynnu ar amgylchiadau, ar gyfer tai sydd wedi eu rhannu'n fflatiau.

6.7 Dylai adeiladau preswyl hynny yw blociau o fflatiau, gael enw a'u rhifo ar wahân y tu fewn.

6.8 Mae deddfwriaeth yn caniatáu defnyddio rhifau gyda llythrennau neu ffracsiynau i ddilyn. Bydd y rhain yn addas, er enghraifft, pan fo un tŷ mawr wedi ei ddymchwel ar stryd gan (dyweder) 4 tŷ newydd llai o faint. Byddai cynnwys y tai newydd yn y dilyniant rhifau presennol ar y stryd yn cynnwys ail-rifo'r holl dai rhifau uwch ar ymyl y ffordd sydd wedi eu heffeithio gan y cais. Nid yw hyn yn rhywbeth y byddem fel arfer yn ei wneud (gweler Adran 7).

Er mwyn osgoi'r sefyllfa hon, dylai tai newydd gael rhif yr hen dŷ gyda A, B, C neu D wedi eu hychwanegu (hynny yw 21A, 21B, 21C, 21D). Dim ond pan nad yw'n bosibl defnyddio llythrennau y caiff ffracsiynau eu defnyddio.

6.9 Mae'n hanfodol rhoi enwau ar adeiladau ar ffyrdd presennol sydd heb rifau. Ni ddylai'r enw fod yn debyg i enw'r ffordd na'i ailadrodd, nac yn debyg i enw unrhyw dŷ neu adeilad yn yr ardal leol.

6.10 Pan fo rhif gan eiddo, rhaid ei ddefnyddio a'i arddangos. Pan fo enw wedi ei ddewis i eiddo â rhif, rhaid cynnwys y rhif bob tro. Ni ellir ystyried y rhif fel dewis amgen.

**7. Ailenwi ac ail-rifo strydoedd ac adeiladau**

7.1 Ar achlysuron prin, fe all fod yn angenrheidiol ailenwi neu ail-rifo stryd. Fel arfer caiff hyn ei wneud fel dewis olaf pan:

- Ceir dryswch ynghylch enw a/neu rifo stryd
- Mae grŵp o breswylwyr yn anhapus ag enw eu stryd
- Caiff adeiladau newydd eu hadeiladu ac mae'r angen i adeiladau eraill i gael eu hail-rifo er mwyn gwneud lle i'r adeiladau newydd
- Ystyrir bod y nifer o adeiladau ag enw yn unig sydd ar y stryd yn peri dryswch i ymwelwyr neu'r Gwasanaethau Brys.

7.2 Caiff preswylwyr y stryd a effeithir eu hymgynghori a bydd eu barn yn cael ei hystyried. Byddwn hefyd yn ymgynghori â'r Post Brenhinol.

7.3 Bydd preswylwyr lleol yn cael pleidleisio ar y mater. Bydd angen mwyafrif o ddwy ran o dair o leiaf er mwyn cyflawni'r newid.

**8. RHESTR TIR AC EIDDO CENEDLAETHOL A'R RHESTR TIR AC EIDDO LLEOL**

8.1 Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gynnal a chadw gwybodaeth sy'n berthnasol i dir ac eiddo ym Merthyr Tudful yn y RHESTR TIR AC EIDDO CENEDLAETHOL. Caiff hyn ei wneud drwy gynnal a chadw Rhestr Tir ac Eiddo Lleol.

8.2 Caiff y RHESTR TIR AC EIDDO LLEOL a'r RHESTR TIR AC EIDDO CENEDLAETHOL eu diweddaru i gynnwys pob enw stryd newydd, enwau adeiladau newydd a'u rhifau, Bydd y rhain yn cael eu gwneud yn unol â Safonau Prydeinig BS7666 "Spatial Data-sets for geographical referencing".

8.3 Nid yw'r Cyngor yn gyfrifol am ddynodi cod post i gyfeiriad. Y Post Brenhinol sy'n gwneud hynny. Caiff unrhyw ymholiadau ynghylch codau post sylw'r Post Brenhinol drwy ffonio 08456 011 110 (Ymholiadau Cod Post) neu drwy eu gwefan www.royalmail.com.

**9 Gwybodaeth a Chyngor Pellach**

9.1 Am wybodaeth bellach ar unrhyw agwedd ar enwi a rhifo strydoedd, cysylltwch â'r Swyddog Tir ac Eiddo Lleol / Enwi a Rhifo Strydoedd yn yr Adran Priffyrdd ar 01685 725188 neu e-bostiwch: highways.customercare@Merthyr.gov.uk.

## 10. Cyngor i ddatblygwyr ynghylch gosod platiau enwau stryd

Manyleb

Mae Polisi Dwyieithrwydd gan y Cyngor. Mae hyn yn golygu pan fo gan stryd enw Saesneg, bod plât enw'r stryd i gael yr enw Cymraeg ar y brig a'r enw Saesneg oddi tanodd.
Pan fo gan y stryd enw Cymraeg neu unrhyw iaith ac eithrio'r Saesneg, nid oes cyfieithiad.

Bydd plât enw stryd yn cynnwys llythrennau 90mm o uchder sydd yn Kingsley Alphabet Type 88, Llythrennau du ar gefndir gwyn gydag amlinell du, cyfansawdd a galfanedig.

Bydd gan blât enw stryd ar gyfer stryd sydd yn cuI-de-sac symbol cuI-de-sac (Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Arwyddion Traffig Ffigur 816.1) wedi ei ymgorffori ar ochr plât enw'r stryd.




Bydd plât enw stryd sy'n sefyll yn rhydd yn cael ei fframio gyda ffrâm ddur â choesau a'i alfaneiddio.

Lleoli

Fel arfer dylai plât mewn stryd sefyll yn rhydd a'i leoli ar gefn llwybr troed mor agos â phosibl i gornel y stryd, fel y gellir ei ddarllen yn hawdd gan yrwyr yn ogystal â cherddwyr. Dylai'r top fod tua 1 medr uwch ben y ddaear, ond ddim mwy na hynny, oni bai bod caniatâd wedi ei roi gan yr Awdurdod Priffyrdd.

Dylid gosod plât enw fel bod gwagle clir o 300mm o leiaf i bob cyfeiriad rhyngddo ac unrhyw arwydd arall neu hysbysiad, hysbysebion neu unrhyw beth arall printiedig. Ble y bo'n bosibl, dylid darparu cliriad ehangach. Dylid gofalu i gadw plât enw stryd yn glir a heb fod y geiriau yn cael eu cuddio gan goed neu dyfiant arall.Ble y bo'n bosibl, dylai plât enw stryd gael ei osod fel ei fod yn cael ei oleuo gan olau lampau stryd, yn enwedig ar gyffyrdd pwysig, ar yr amod eu bod yn parhau'n weladwy i gerbydau ar y brif ffordd gerbydau.

Wrth groesffyrdd bach, yn enwedig mewn ardaloedd preswyl, mae'n bosibl y byddai un plat ar bob ochr i'r stryd wedi eu gosod yr ochr gyferbyniol i'r traffig sy'n dynesu o'r ffordd fod yn ddigon, ac eithrio pan fo enw'r stryd yn newid. Ar gyffordd T, dylai prif blât enw stryd gael ei osod yn union gyferbyn â thraffig sy'n dynesu o'r ffordd ymyl. Pan fo enw'r stryd yn newid ar bwynt ac eithrio croesffordd, dylai'r ddau enw gael eu harddangos ar bwynt y newid ac weithiau mae'n fuddiol cynnwys arwyddion i ddynodi'n glir i ba rannau o'r stryd y mae'r enw'n cyfeirio ato.

Ble y bo'n rhesymol disgwyl hynny, er enghraifft yn gyfnodol yn unig ar ddarn syth i ffordd neu groestoriad neu gyffyrdd T, y mae weithiau'n defnyddiol dynodi rhifau stryd bob ochr i'r croestoriad.

Rhaid i'r Awdurdod Priffyrdd gytuno â, a chymeradwyo lleoliad a chynnwys plât enw stryd cyn ei godi ar y safle.

## 11. Ffioedd

| | | |
|---|---|---|
| Ailenwi neu ail-rifo 1 eiddo presennol | - | £122 |
| Enwi neu rifo 1 eiddo newydd | - | £183 |
| Enwi neu rifo 2-5 eiddo | - | £243 |
| Enwi neu rifo 6-10 eiddo | - | £365 |
| Enwi neu rifo 11-50 eiddo | - | £548 |
| Enwi neu rifo 51-100 eiddo | - | £791 |
| Enwi neu rifo 101 eiddo neu fwy | - | £1096 |

| | | |
|---|---|---|
| Cadarnhau cyfeiriadau postio (yn cynnwys copïau o ddogfennaeth) i gyfreithwyr a thrawsgludwyr a pherchnogion eiddo | - | £41 |